## ❖ Dydd Nadolig: Gair Duw mewn Cnawd

**Eseia 52:7–10; Salm 98;**
**Hebreaid 1:1–4 (5–12); Ioan 1:1–14**

**Ceir disgwyliad mawr heddiw fel disgwyliad Sul y Blodau**
**am fod y Brenin yn dod!**

Seiniwch yr utgorn! Tarwch y drwm!
Daeth y disgwyl i ben.
O’r diwedd daeth dydd gobaith!
Datguddiwyd iachawdwriaeth ein Duw!
Daeth ein Gwaredwr!
Y mae yn fawr, yn fwy na’r angylion;
Ef yw creawdwr a chynhaliwr bywyd.
Y mae’n oleuni a bywyd, ac arno mae stamp sylwedd Duw.
Mab Duw, y Mwyaf Un,
a ddaeth i’n plith.
Datguddiwyd iachawdwriaeth ein Duw!

*Oedi/distawrwydd*

Ond lle mae ei osgordd?
Lle mae’r baneri?
Lle mae’r torfeydd disgwylgar?

Y mae stabal,
mam ifanc a thad
a baban…

Dyro i ni weledigaeth y Dydd Nadolig hwn,
i ganfod a dathlu dy Aruthrol Fawredd a’th Sancteiddrwydd
yn y mannau annisgwyl ac yng nghanol cyffredinedd bywyd.
Dyro i ni, Grist y Gwaredwr, y weledigaeth y Nadolig hwn.

**Fiona Bennett**